# CABINET

# DYDD LLUN, 20 CHWEFROR 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd D. Price (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
L.D. Evans G. Davies A. Lenny E.G. Thomas
A. Vaughan Owen

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
G.H. John J. Tremlett

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**
Y Cynghorydd D.M. Cundy

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
W. Walters, Prif Weithredwr;
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau;
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;
A. Williams, Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith;
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol;
J. Jones, Pennaeth Adfywio;
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
D. Hockenhull, Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata;
C. Higginson, Media Manager;
L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet;
A. Eynon, Prif Gyfieithydd;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel;
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin ac o bell: 10.00 yb - 11.10 yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Davies a P.M. Hughes.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**3. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU**
Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

**4. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**
Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 5. STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW 2023/24 i 2025/26

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn cyflwyno'r cynigion diweddaraf ar gyfer y Strategaeth Cyllideb Refeniw am 2023/24 a'r ddwy flynedd ariannol ganlynol.

Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y gyllideb ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddilysu'r gyllideb, y gwasgfeydd o ran gwariant, setliad terfynol Llywodraeth Cymru, a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y gyllideb.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau, wrth gyflwyno'r adroddiad, er na fyddai ffigurau setliad blynyddol terfynol Llywodraeth Cymru yn cael eu cyhoeddi tan 1 Mawrth 2023, fod prif elfennau rhagdybiaethau a dyraniadau cyllideb y Cyngor wedi'u hadolygu a bod hynny wedi arwain at hyblygrwydd yn y gyllideb. Felly roeddid wedi edrych eto ar rai o'r cynigion yn yr amlinelliad o'r gyllideb wreiddiol a rhoddwyd ystyriaeth i opsiynau pellach.

Roedd manylion llawn y setliad dros dro wedi eu cynnwys yn yr adroddiad, ond roedd y pennawd ar sail Cymru gyfan. Roedd cyllid y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer Llywodraeth Leol wedi cynyddu 7.9%, ac roedd Sir Gaerfyrddin yn cael cynnydd o 8.5%.
Er bod hyn wedi osgoi'r drychineb roedd Awdurdodau Lleol yn ei hofni fis Tachwedd diwethaf, byddai angen gwneud penderfyniadau anodd iawn o hyd. Roedd dewisiadau'r gyllideb eleni yr un modd anodd ag unrhyw adeg yn ystod blynyddoedd gwaethaf y cyfnod o gyni cyllidol.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau at y ffaith bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wedi addasu rhai o'r ffigyrau eraill yn y strategaeth. Pwysleisiodd fod y drefn hon yn arferol, wrth i fwy o wybodaeth a gwybodaeth gliriach ddod ar gael. Roedd cyfanswm y dilysiad presennol yn ychwanegu dros £30m at y gyllideb.

Roedd yr adroddiad yn cadw'r cyflog tybiedig o 5% y caniatawyd ar ei gyfer yn y flwyddyn nesaf ar gyfer staff addysgu a NJC - dyma'r dilysiad mwyaf arwyddocaol yn y rhagdybiaethau, a hefyd y mwyaf ansicr. Roedd yr adroddiad yn nodi fod pob 1% ar fil cyflogau'r Cyngor yn gyfystyr â £2.6m. O gofio'r gweithredu diwydiannol ar draws y sector cyhoeddus ehangach, lefel y dyfarniadau cyflog a bennwyd yn genedlaethol oedd y dilysiad mwyaf arwyddocaol yn y rhagdybiaethau, a hefyd y ffactor risg mwyaf.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau at yr ymgynghoriadau oedd wedi digwydd ynghylch cynigion y gyllideb yn Rhagfyr a Ionawr, pan oedd dros 2,000 o bobl wedi mynd i'r drafferth o gwblhau'r arolwg a rhannu eu barn. Diolchodd i bawb oedd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad neu wedi ymateb i'r arolygon, ac yn benodol i'w gyd-gynghorwyr am eu hymrwymiad wrth gyfrannu at y seminarau am y gyllideb mewn modd mor gadarnhaol. Hefyd diolchodd i'r 80 o bobl ifanc o ysgolion uwchradd lleol oedd wedi ymweld â Neuadd y Sir i holi aelodau'r cabinet a swyddogion ac i fynegi eu barn am yr hyn ddylai blaenoriaethau'r Cyngor fod.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau fod cyfanswm o bron i £1.8 miliwn ar gael i wneud newidiadau i gyllideb y flwyddyn nesaf, ac fe awgrymodd y dylid gwneud y defnydd gorau posibl o'r swm hwn drwy wneud yr addasiadau canlynol i Strategaeth y Gyllideb, a oedd yn ystyried y broses ymgynghori a'r ymatebion i'r adborth gan y cyhoedd a'r cynghorwyr:

Yn gyntaf, bod £1.3 miliwn yn cael ei ddarparu i gael gwared neu leihau'r 9 gostyngiad penodol yn y gyllideb y manylir arnynt ym mharagraff 3.2.5 yr adroddiad a oedd yn cynnwys:

- cadw Canolfan Hamdden Sanclêr ar agor tra bo'r Awdurdod yn gweithio gyda'r gymuned i greu llwybr ariannol hyfyw ar ei chyfer;
- rhoi chwarter miliwn o bunnoedd yn ôl i'r gwasanaethau plant ac ieuenctid er mwyn buddsoddi yn yr agenda atal;
- lleihau'r effaith ar y gwasanaeth cerdd i ysgolion a'r gwasanaethau anabledd dysgu;
- lleihau'r gofynion ariannol ar ysgolion gan £700,000, gan ymateb i'r farn gryfaf a fynegwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus;
- gohirio am flwyddyn unrhyw newidiadau i'r polisi derbyn plant sy'n codi'n 4 oed i ysgolion, er mwyn sicrhau ymgynghoriad ehangach a chaniatáu amser priodol i gynllunio unrhyw newidiadau posibl.

Ychwanegodd fod y cynnig i godi tâl am barcio mewn naw maes parcio mewn trefi bach a phentrefi hefyd wedi cael ei waredu, a byddai asesiad fesul achos yn digwydd yn ystod y flwyddyn.

Yn ail, bod £385,000 yn cael ei ddefnyddio i gefnogi busnesau a theuluoedd oedd yn gweithio'n galed drwy gyfyngu ar y cynnydd arfaethedig mewn taliadau meysydd parcio a phrydau ysgol i 5%, sef hanner y gyfradd chwyddiant ar hyn o bryd.

Yn drydydd, wrth ymateb i bryderon ynghylch priffyrdd a chanol trefi, fod swm o fwy na chwarter miliwn o bunnoedd yn cael ei bennu'n uniongyrchol ar gyfer y blaenoriaethau hyn. Roedd yn cael ei gydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi gweld crebachiad sylweddol yn ei chyllidebau cyfalaf, ac o ganlyniad roedd rhywfaint o'r gefnogaeth a ddarperid yn y gorffennol i waith llecynnau cyhoeddus wedi diflannu yn y blynyddoedd diwethaf – a byddai dewisiadau'r Cyngor hwn meddai, o leiaf yn liniaru hynny'n rhannol. Yn hytrach na thorri gwariant ar ysgubo strydoedd ac yn y blaen, fel y cynigiwyd o'r blaen, byddai mwy yn cael ei wario ar gadw canol trefi yn lanach a'u gwneud yn fwy deniadol i ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd.

Yn olaf, ac yn bwysig iawn, roedd hyn yn gadael digon o arian ar gyfer gostwng y cynnydd yn y dreth gyngor i 6.8% ar gyfer y flwyddyn nesaf, a oedd, ym marn yr Aelod Cabinet dros Adnoddau, yn taro'r cydbwysedd cywir o ran diogelu gwasanaethau hanfodol yr oedd pobl Sir Gaerfyrddin yn dibynnu arnynt ac yn disgwyl i'r Cyngor eu darparu o ddydd i ddydd.

Awgrymodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau fod mabwysiadu'r cynigion hyn yn galluogi'r Cabinet i gyflwyno cyllideb deg a chytbwys i'r Cyngor Sir, ac yn ymateb i'r sylwadau oedd wedi deillio o'r ymgynghoriad. Dywedodd pe bai'r holl gynigion

yr oedd wedi'u hamlinellu yn cael eu gweithredu, gellid darparu Strategaeth Gyllideb gynaliadwy a hyfyw a oedd yn:

• Ymateb i'r ymgynghoriad;
• Sicrhau hyd y gellid fod lefelau a safonau'r gwasanaethau'n cael eu cynnal;
• Cydnabod bod trigolion yn ei chael hi'n anodd yn yr hinsawdd bresennol ac yn sicrhau bod gwasanaethau craidd yn cael eu diogelu;
• Paratoi'r Awdurdod hwn, cyhyd ag oedd yn bosibl, ar gyfer unrhyw ansicrwydd a allai ddigwydd yn y dyfodol.

Cynigiodd felly fod y Strategaeth Gyllideb arfaethedig, gyda'r newidiadau yr oedd wedi cyfeirio atynt, yn cael eu cymeradwyo a'u hargymell i'r Cyngor Sir.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:-**

**5.1 Cymeradwyo'r Strategaeth Gyllideb ar gyfer 2023/24, sy'n cynnwys y newidiadau ym mharagraff 4.1.4 yr adroddiad;**
**5.2 Cymeradwyo Treth Gyngor Band D o £1,490.97 am 2023/24 (cynnydd o 6.8%);**
**5.3 Cymeradwyo dileu cynigion arbedion penodol fel y nodir ym mharagraff 3.2.5 o'r adroddiad;**
**5.4 Cymeradwyo cyfyngu ar godi'r incwm a geir yn sgil prydau ysgol a meysydd parcio fel y nodir ym mharagraff 3.2.5 yr adroddiad;**
**5.5 Cymeradwyo dyrannu cyllid ar gyfer priffyrdd a chanol trefi fel y nodir ym mharagraff 3.2.5 yr adroddiad;**
**5.6 Cymeradwyo'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a fydd yn sylfaen i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod;**
**5.7 Bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau, yn cael awdurdod dirprwyedig i wneud unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol o ganlyniad i setliad Llywodraeth Cymru a oedd i'w gyhoeddi ar 1 Mawrth 2023.**

**6. RHAGLEN GYFALAF PUM MLYNEDD 2023/24 - 2027/28**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn dwyn ynghyd y cynigion diweddaraf am Raglen Gyfalaf Bum Mlynedd (Cronfa'r Cyngor) 2023/24 hyd at 2027/2028. Roedd yr adroddiad yn cymryd i ystyriaeth yr ymgynghoriad a gynhaliwyd a'r goblygiadau refeniw oedd yn deillio o'r rhaglen gyfalaf.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau, wrth gyflwyno'r adroddiad, byddai £265m yn cael ei fuddsoddi dros y pum mlynedd nesaf fel rhan o'r rhaglen newydd; £73m ohono ar gyfer gwella adeiladau ysgolion, £27m ar gyfer prosiectau Adfywio i hybu gweithgarwch economaidd, £86m i brosiectau a gefnogir gan y Fargen Ddinesig (sy'n cynnwys canolfan hamdden newydd ar gyfer Llanelli), a £59m i wella seilwaith economaidd lleol a'r amgylchedd ehangach. Dywedodd fod y rhaglen gyfalaf dros dro fanwl wedi ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol, ac, yn dilyn pryderon ynghylch diffyg darpariaeth ar gyfer atal llifogydd a diffyg arian grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mesurau datgarboneiddio, fod y rhaglen wedi ei diwygio i gynnwys ymrwymiadau pellach yn y maes hwn.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau fod y rhaglen yn cynnwys tri phrosiect trawsnewidiol parhaus, yr oedd pob un yn canolbwyntio ar brif dref wahanol.

- Hwb gwerth £19.6m (hen siop Debenhams) yng nghanol tref Caerfyrddin, a fydd yn cynyddu nifer yr ymwelwyr yng nghanol y dref wrth i'r sir adfer yn dilyn y pandemig;
- buddsoddiad o £19m i gwblhau Llwybr Dyffryn Tywi rhwng Caerfyrddin a Llandeilo;
- cam adeiladu Parth 1 datblygiad Pentre Awel yn Llanelli, a fydd yn creu pum adeilad gwahanol sy'n gysylltiedig â "stryd", a fydd yn cynnwys canolfan gweithgareddau dŵr, neuadd chwaraeon, ystafelloedd chwaraeon a ffitrwydd amlbwrpas a champfa, cyfleusterau addysg a hyfforddiant, darpariaeth glinigol ac ymchwil ac arloesi a lle i fusnesau.

Yn ogystal â'r prosiectau blaengar mawr hyn, byddai'r Cyngor yn parhau i gefnogi ei raglenni buddsoddi mewn seilwaith a phortffolio eiddo'r awdurdod ym mlwyddyn pump y rhaglen. Byddai'r cymorth hefyd yn parhau i Ysgolion a Chymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Sir Gaerfyrddin. Dywedwyd bod gwaith dichonoldeb wedi bod yn mynd rhagddo ym mlwyddyn ariannol 2022/23 ar sawl ysgol, ac felly nid oedd y prosiectau hynny wedi'u rhestru fel rhan o'r rhaglen newydd hon. At hynny nid oedd yr ysgolion cynradd yn Rhydaman, a oedd yn rhan o'r rhaglen, wedi'u rhestru hyd yn hyn, gan eu bod yn rhan o geisiadau Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM), ac felly roedd yn bosibl byddent yn cael eu darparu ar y cyd â phartneriaid yn y sector preifat a fyddai'n cael eu hariannu trwy refeniw maes o law.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau, yn ogystal â'r prosiectau blaengar a amlinellwyd, y byddai'r Awdurdod yn ceisio parhau i gefnogi ei raglenni treigl parhaus o fuddsoddiadau yn y seilwaith canlynol a phortffolio eiddo'r awdurdod ym mlwyddyn pump y rhaglen:

£2.5m ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl;
£250k i wella Diogelwch ar y Ffyrdd;
£250k ar gyfer draenio priffyrdd;
£400k ar gyfer cryfhau pontydd;
£600k ar gyfer Adnewyddu Priffyrdd yn barhaus;
£400k ar gyfer Goleuadau Cyhoeddus;
£500k ar gyfer Gwaith Cyffredinol Addysg gan gynnwys addasiadau i gydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb;
£2m ar gyfer Cronfa Prosiect Adfywio Strategol;
£3m ar gyfer Cynnal a Chadw Cyfalaf ar gyfer buddsoddi yn ein hystad eiddo.

Gyda'i gilydd, dros y pum mlynedd nesaf, byddai mwy na £48m yn cael ei fuddsoddi yn y rhaglenni treigl hyn.

Y farn oedd bod y rhaglen gyfalaf arfaethedig yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd cyllido a'r cyllid gan ffynonellau allanol posibl. Byddai cyfuniad o gynlluniau newydd a phresennol, yn unol â'r weledigaeth gorfforaethol, yn datblygu'r economi leol, yn creu swyddi ac yn gwella ansawdd bywyd trigolion Sir Gâr ac ymwelwyr, gan ddiogelu adnoddau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau mai oddeutu £168m o arian y Cyngor Sir oedd ar gael ar gyfer y rhaglen hon ar hyn o bryd, a'i fod yn cynnwys benthyca, wedi'i gynnal a heb ei gynnal, cronfeydd wrth gefn a chyllid refeniw uniongyrchol, a Derbyniadau Cyfalaf yn sgil gwerthu asedau nad oedd eu hangen mwyach. Byddai grantiau cyfalaf a chyfraniadau o £100m yn dod o gyrff arian grant allanol. Fel rhan o setliad eleni, roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu ffigurau dangosol o ran cyllid cyfalaf cyffredinol hyd at 2024/25. Adlewyrchwyd hyn yn y rhaglen. Roedd y cyllid ar gyfer blynyddoedd tri, pedwar a phump y rhaglen yn seiliedig ar lefel dybiedig o gymorth sy'n cyfateb i'r hyn a dderbyniwyd yn 2024/25 wrth symud ymlaen. Dywedwyd bod cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 £55K yn llai na'r hyn roeddid yn ei ddisgwyl o'r blaen. Roedd lefel gyffredinol yr arian tybiedig ym mlynyddoedd diweddarach y rhaglen ychydig yn fwy na'r ymrwymiadau presennol. Byddai'r cyllid nas ymrwymwyd hwn yn caniatáu hyblygrwydd i helpu â phwysau yn y dyfodol a fyddai'n gysylltiedig â chostau cynyddol a heriau eraill.

Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet y byddai'r swyddogion yn parhau i fonitro cynlluniau unigol a'r cyllid oedd ar gael. Tra byddai angen rheoli'r ddwy elfen hyn yn agos i sicrhau bod cynlluniau'n cael eu cyflawni'n llawn, roedd y rhaglen yn cael ei chyllido'n llawn am y pum mlynedd.

I gloi roedd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau yn credu bod y Rhaglen Gyfalaf, fel yr amlinellwyd hi, yn ceisio gwneud y mwyaf o gyfleoedd ac felly roedd yn argymell ei chymeradwyo.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:-**

**6.1 cymeradwyo'r cyllid a'r Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd, fel y'u nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad, gyda 2023/24 yn gyllideb bendant a 2020/21 i 2023/24 yn gyllidebau amhendant/dangosol;**
**6.2 adolygu'r rhaglen, yn ôl yr arfer, oni lwyddir i gael y cyllid Cyngor Sir neu allanol disgwyliedig;**
**6.3 cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf yn Atodiad C i'r adroddiad;**
**6.4 bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau, yn cael awdurdod dirprwyedig i wneud unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol o ganlyniad i setliad terfynol Llywodraeth Cymru a oedd i'w gyhoeddi ar 1 Mawrth 2023.**

**7. POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH 2023-24**

Atgoffwyd y Cabinet fod y Cyngor, yn unol â gofynion Côd Ymarfer diwygiedig CIPFA ynghylch Rheoli'r Trysorlys, wedi cytuno i gynnal Polisi Rheoli'r Trysorlys a oedd yn manylu ar bolisïau ac amcanion gweithgareddau'r Awdurdod o ran Rheoli'r Trysorlys, a hefyd i gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn flynyddol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol yr oedd yn ymwneud â hi. Yn ogystal, dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2003, roedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Yn unol â'r gofynion uchod, rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i Bolisi a Strategaeth y Cyngor ynghylch Rheoli'r Trysorlys ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 cyn eu rhoi gerbron y Cyngor yn ffurfiol ar gyfer eu mabwysiadu'n derfynol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:-**

**7.1 Bod Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023-24 a'r argymhellion a nodwyd ynddynt yn cael eu cymeradwyo;**
**7.2 Bod Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys, y Dangosyddion Darbodaeth, y Datganiad ynghylch y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw, y Strategaeth Fuddsoddi, a'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo.**

**8. ADRODDIAD CHWARTEROL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH EBRILL 1AF 2022 I RHAGFYR 31AIN 2022**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad diweddaru ar weithgareddau rheoli'r trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Rhagfyr 2022.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr Adroddiad ynghylch y Dangosyddion Darbodaeth a Rheoli'r Trysorlys rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Rhagfyr 2022 yn cael ei dderbyn.**

**9. ADRODDIAD GRWP GORCHWYL A GORFFEN Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, TAI AC ADFYWIO - POLISI DYRANNU TAI CYMDEITHASOL BRYS**

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio, ar gyfer ystyriaeth y Cabinet, adroddiad ar ganfyddiadau ac argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd gan y Pwyllgor uchod i ddatblygu Polisi Dyraniadau Tai Cymdeithasol Brys, er mwyn mynd i'r afael â'r galw digynsail ar hyn o bryd am Dai Cymdeithasol. Diolchodd i'r holl aelodau a swyddogion oedd wedi bod ynghlwm wrth baratoi'r adroddiad.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen am yr adroddiad a dweud nad oedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo argymhellion 1 a 2.

Cynigiodd yr Aelod Cabinet dros Gartrefi a'r Dirprwy Arweinydd fod newid yn cael ei wneud i argymhelliad 2 sef cyfnewid y geiriau 'tua un flwyddyn' am 'hyd at 18 mis', a hefyd fe wnaeth argymell trefnu Sesiwn Datblygu i'r Aelodau ar y Polisi Dyraniadau Tai Cymdeithasol Dros Dro Brys.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**9.1 bod adroddiad ac argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio sef datblygu Polisi Dyraniadau Tai Cymdeithasol Brys yn cael eu cymeradwyo yn amodol ar y newid a amlinellwyd, a nodi nad oedd angen i'r Cyngor gymeradwyo argymhellion 1 a 2;**
**9.2 trefnu Sesiwn Datblygu i'r Aelodau ar y Polisi Dyraniadau Tai Cymdeithasol Dros Dro Brys.**

**10. STRATEGAETH RHAGLEN CYMORTH TAI 2022-2026**

Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i'r Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai arfaethedig (2022 – 26) ar gyfer Sir Gaerfyrddin, yr oedd yn ofynnol, yn ôl Llywodraeth Cymru, i'r Cyngor ei lunio. Roedd y strategaeth yn manylu ar flaenoriaethau strategol Cyngor Sir Caerfyrddin a'i asiantaethau partner ar gyfer gwasanaethau atal digartrefedd a gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai dros y 4

blynedd nesaf (2022-26). Roedd yn diweddaru'r blaenoriaethau blaenorol a gafodd eu cynnwys yn hen strategaeth digartrefedd yr Awdurdod Lleol, a Chynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai ar gyfer 2021-22. Roedd y blaenoriaethau wedi'u datblygu drwy gyfrwng ymarfer asesu angen cynhwysfawr a oedd yn cynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid yn yr Awdurdod Lleol, darparwyr gwasanaethau cymorth a defnyddwyr gwasanaeth.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai (2022-26) ar gyfer Sir Gâr.**

**11. CYNLLUN PONTIO AILGARTREFU CYFLYM 2022 - 2027**

Ystyriodd y Cabinet Gynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym Drafft 2022-2027, a luniwyd yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys cyfres o Gamau Gweithredu Lefel Uchel er mwyn galluogi'r Cyngor i bontio i ddull Ailgartrefu Cyflym i helpu i wneud digartrefedd yn Sir Gaerfyrddin yn brin ac yn fyr, ac i sicrhau nad yw'n digwydd dro ar ôl tro. Roedd datblygiad Ailgartrefu Cyflym yn amlwg yn gosod pwyslais ar ddarparu tai fel *elfen sylfaenol* o adferiad o ddigartrefedd, na ellid ei ddatrys drwy dai yn unig. Er mwyn i Ailgartrefu Cyflym fod yn llwyddiant, ystyrid bod yn rhaid i'r Cyngor weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau allweddol fel iechyd a chyfiawnder troseddol, tra hefyd yn defnyddio arbenigedd a gwybodaeth y trydydd sector a sefydliadau gwirfoddol oedd yn darparu gwasanaethau sy'n cefnogi ac yn helpu tenantiaid i fagu hyder a chysylltiad â'r gymuned.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym drafft (a'i Grynodeb Gweithredol) yn cael ei gymeradwyo a'i gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru, a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn dilyn ei gyfieithu i'r Gymraeg.**

**12. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

**13. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**14. ADRODDIAD DIWEDDARU YNGHYLCH YR YSTAD WLEDIG**

**Yn dilyn cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 13 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a**

**geir ynddo oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth hon yn tanseilio'n annheg fuddiannau masnachol y Cyngor a ffermwyr unigol.**

Derbyniodd y Cabinet adroddiad ar statws a chyflwr presennol Ystâd Ffermydd y Cyngor Sir yn dilyn arolygon diweddar a goblygiadau cyflwyno Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, a fyddai'n golygu bod ffermydd yn gorfod uwchraddio cyfleusterau storio slyri er mwyn gallu dal hyd at werth pum mis o leiaf o slyri. O ganlyniad gwahoddwyd y Cabinet i ystyried a ddylid ailedrych ar benderfyniad blaenorol y Cyngor Sir (Medi 2019) i ddal ei afael ar Ffermydd Sirol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gadw a rheoli Ystâd Ffermydd y Cyngor Sir o dan y polisi presennol, gan resymoli ac ystyried cyfleoedd i ddatblygu a gwerthu wrth iddynt godi.**

_________________________ ___________________
**CHAIR** **DATE**